**Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi - 6 Mai 2020, cyfarfod rhithwir**

**Yn bresennol:**
Amal Beyrouty – Women Connect First
Rachel Cable – Oxfam Cymru (Ysgrifenyddiaeth)
Carmel Condon – Staff Cymorth Helen Mary Jones AS
Emma Curtis – Swyddfa'r Comisiynydd Plant
Tom Davies – Cymdeithas y Plant
Ryland Doyle – Staff Cymorth Mike Hedges AS
Alicia Evans – Y Groes Goch
Amy Evans – Colegau Cymru
Claire Evans – Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Steffan Evans – Sefydliad Bevan
Sarah Germain – FareShare Cymru
John Griffiths AS (Cadeirydd)
Huw Irranca-Davies AS
Susan Lloyd-Selby – Ymddiriedolaeth Trussell
Katie Palmer – Synnwyr Bwyd Cymru
Jenny Rathbone AS
Mia Rees – Staff Cymorth Suzy Davies AS
Sarah Rees – Staff Cymorth Bethan Sayed AS
Carol Wardman – Yr Eglwys yng Nghymru
Therese Warwick – Yr Asiantaeth Gatholig ar gyfer Datblygu Tramor (Cafod)
Jamie Westcombe – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ginger Wiegand – Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Liz Williams – Samariaid Cymru
Lynda Young – Uned Gyswllt yr Heddlu

**Nodyn cyfarfod**

Croesawodd John Griffiths AS, y Cadeirydd, yr aelodau i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol yn 'Senedd Cymru', sef enw newydd y sefydliad. Pennodd JG y cyd-destun, a phwysleisiodd y cyfle a gyflwynodd y Coronafeirws i ail-ystyried sut rydym yn mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, yn ddisymwth ac yn y tymor hwy. Mae'r nodyn hwn wedi'i osod yn thematig.

**Problemau enbyd a gyflwynodd y Coronafeirws**

Roedd hanner cyntaf y cyfarfod yn canolbwyntio ar y problemau enbyd y mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn ystod pandemig y Coronafeirws yn eu hwynebu, a sut y mae awdurdodau ac elusennau'n ymateb.

Rhoddodd Rachel Cable, Cadeirydd clymblaid gwrth-dlodi Cymru, drosolwg o waith y glymblaid gwrth-dlodi, a datblygiadau arwyddocaol eraill. Roedd hyn yn cynnwys:

- Hygyrchedd, cyhoeddusrwydd a hyblygrwydd Cronfa Cymorth Dewisol (CCD) Llywodraeth Cymru;
- Darpariaethau amgen i deuluoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim;
- Problemau sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol y mae teuluoedd ac unigolion yn eu hwynebu wrth gael mynediad at waith ysgol, cyngor budd-daliadau, cymorth ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl, a theimlo'n ynysig;
- Llythyr a gafodd ei gyhoeddi heddiw, wedi'i drefnu gan Oxfam a'i lofnodi gan fwy na 100 o sefydliadau, yn tynnu sylw at yr argyfwng tlodi cynyddol y mae gofalwyr yn ei wynebu;
- A llythyr a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, wedi'i drefnu gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, a'i lofnodi gan ystod o sefydliadau, yn tynnu sylw at yr effaith benodol y mae'r Coronafeirws yn ei chael ar fenywod.

DRAFT

**Prydau ysgol am ddim a chymorth bwyd** - Trafododd y grŵp brydau ysgol am ddim, a chanmolodd Jenny Rathbone AS Gyngor Caerdydd am ei gynllun bagiau bachu. Codwyd pryderon ynghylch pa gymorth sydd ar waith i blant agored i niwed y mae'n bosibl nad ydynt yn mynd i'r 'hybiau' sydd wedi'u sefydlu, gan dynnu sylw bod teuluoedd agored i niwed efallai'n llai tebygol o fynd i gyfleuster newydd, neu o ymddiried mewn gweithwyr cymorth sy'n newydd iddynt. Awgrymwyd y dylai awdurdodau lleol (ALl) rannu profiadau fel y gellir tynnu sylw at yr arferion gorau. Nodwyd y bydd y feirws yn gwaethygu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac y dylid diwygio modelau diogelu i adlewyrchu hyn.

Soniodd Huw Irranca-Davies AS am brofiad ei etholaeth, sy'n rhychwantu dau ALl, lle y mae trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mewn un ardal, mae parseli prydau ysgol am ddim yn cael eu danfon â llaw – model a ganmolodd y tîm Adnoddau Dynol am ei fanteision ehangach, er enghraifft, rhagor o gyswllt i deuluoedd agored i niwed â staff cymorth. Dywedodd Steffan Evans fod 17 o'r 22 ALl eisoes wedi cyflwyno arian parod yn lle prydau ysgol am ddim, neu wedi cytuno i wneud hynny. Mae'r pump sy'n weddill yn darparu talebau neu barseli bwyd. Cydnabu'r grŵp werth posibl dull gweithredu cymysg, er enghraifft, ar gyfer teuluoedd nad oes ganddynt gyfrifon banc. Tynnodd SE sylw at bryderon ynghylch parseli bwyd, er enghraifft, mae'n bosibl na all teuluoedd fforddio'r nwy neu'r trydan i goginio'r bwyd a ddarperir, a bod y stigma hirsefydlog sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim yn parhau, ac nad yw talebau'n mynd i'r afael ag ef.

Codwyd pryderon am geiswyr lloches, er enghraifft, fod deialog yn parhau ynghylch llwytho arian prydau ysgol am ddim ar gardiau Aspen ceiswyr lloches, er bod y cynnydd yn rhy araf. Hefyd, dywedwyd bod y Comisiynydd Plant yn cael ystod o bryderon yn ymwneud â phrydau ysgol am ddim (cynnwys parseli, a'r hyn sy'n cael ei gynnig ar draws awdurdodau lleol), yn ogystal ag arholiadau, anghenion addysgol plant a phobl ifanc, ac iechyd meddwl.

Amlinellodd Katie Palmer yr ymateb cymorth bwyd, ac ailadroddodd y galwadau am dasglu cymorth bwyd cydgysylltiedig, i fod dan arweiniad Llywodraeth Cymru, a chynnwys yr holl adrannau a sectorau perthnasol. Dywedodd KP fod rhannau o Gymru yn perfformio'n dda iawn mewn ymateb i gymorth bwyd (yn ei ystyr ehangaf – banciau bwyd, prydau ysgol am ddim, danfoniadau i bobl sy'n gwarchod ac ati), ac y byddai croeso i archwiliad ar draws awdurdodau lleol. Dywedodd Susan Lloyd-Selby y bu cynnydd 81 y cant yn y galw am fanciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell ar draws y DU, a bod hyn yn codi i 122 y cant i blant. Mae'r data yng Nghymru yn debygol o fod ychydig yn uwch.

**Gofalwyr -** Croesawodd HID y llythyr agored yn amlinellu'r cysylltiad rhwng gofal a thlodi, ac anogodd y grŵp i roi ei bwysau y tu ôl i'r galwadau, ac yn benodol ar Lywodraeth y DU i wella cymorth nawdd cymdeithasol i ofalwyr di-dâl. Dadleuodd HID fod angen gweithredu'n gyflym i wobrwyo'n briodol y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal ac, ochr yn ochr â hynny, i broffesiynoli'r sector. Cydnabu'r grŵp y sylw sy'n cael ei roi i'r mater hwn, a bod cefnogaeth y cyhoedd i ofalwyr yn fwy nag erioed.

**Ymateb brys ar lawr gwlad -** Trafododd HID yr ymateb brys, a myfyriodd ar bwysigrwydd sector gwrth-dlodi wedi'i gydgysylltu'n well – yn enwedig wrth ddarparu ymateb brys, er mwyn lliniaru gorgyffwrdd a/neu gystadleurwydd posibl rhwng sefydliadau am adnoddau.

**CCD a nawdd cymdeithasol –** Cododd aelodau amrywiol o'r grŵp bryderon nad yw llawer o bobl yn cael gafael ar y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, yn enwedig os ydynt yn newydd i'r system nawdd cymdeithasol, ac nad ydynt yn gwybod yr hyn y maent yn gymwys i'w gael. Adroddwyd bod data gan dîm CCD sy'n dangos cynnydd mawr mewn hawliadau, ond yn bennaf gan bobl sydd eisoes wedi defnyddio CCD yn y gorffennol – sy'n awgrymu nad yw'r neges yn cyrraedd pobl nad ydynt wedi cael gafael ar CCD o'r blaen. Croesawyd yr hyblygrwydd newydd yn yr CCD, ond mae angen gwella'r cyhoeddusrwydd o hyd, gan nad yw llawer o bobl yn gwybod ei bod ar gael.

**Tai -** Croesawodd SE y gwaharddiad ar droi pobl allan o dai yn ystod yr argyfwng hwn, ond holodd beth sydd yn yr arfaeth y tu hwnt i'r cyfyngiadau symud, pan fydd gan bobl ôl-ddyledion rhent na allant eu rheoli, ac anogodd Lywodraeth Cymru i roi eglurder i denantiaid ar frys.

**Cynhwysiant digidol –** Tynnodd aelodau amrywiol o'r grŵp sylw at bryderon ynghylch cynhwysiant digidol, ac yn ychwanegol at ddarparu cyfarpar ffisegol a mynediad at WiFi neu ddata, pryder bod rhieni'n gorfod ymgodymu ag

amrywiaeth o gyfarpar newydd, gan roi llwyth gwaith gweinyddol ychwanegol ar deuluoedd.  Codwyd pryder arbennig ynghylch cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches - allgáu digidol i bobl ag incwm isel neu nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, a phwysleisiodd y gallai'r rhaniad digidol hwn roi plant sydd eisoes ar ei hôl hi dan fwy o anfantais.

Croesawodd Lynne Neagle AS y cyhoeddiad ar gyfarpar ar gyfer dysgu gartref i helpu i fynd i'r afael â'r rhaniad digidol, a dywedodd am sgwrs ei phwyllgor am sut y mae hyn yn effeithio ar blant sy'n agored i niwed, a sut y gallent gael gafael ar eu gweithiwr cymdeithasol, er enghraifft.

**Trais yn erbyn menywod a merched** – Tynnodd Claire Evans sylw at yr effaith y mae'r Coronafeirws yn ei chael ar bobl sydd wedi'u dal mewn perthnasau camdriniol, a thynnodd sylw at y cynnydd enfawr yn y cyngor a geisir gan linellau cymorth cam-drin domestig. Ymhellach, tynnodd sylw at yr angen brys i gefnogi plant agored i niwed y mae'r sefyllfaoedd hyn yn effeithio arnynt. Adroddwyd y disgwylir i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gyfarfod â'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yr wythnos hon ac y bydd yn tynnu sylw at y pryderon hyn yno, yn ogystal â phryderon sy'n ymwneud â gwrandawiadau fideo a phobl anabl.

**Ailgodi'n gryfach**

Cyflwynodd y Cadeirydd ail hanner y cyfarfod drwy dynnu sylw at y dulliau a fforymau gwahanol sy'n trafod sut rydym yn 'ailgodi'n gryfach'. Y fforymau allweddol ar gyfer pryderon y Grŵp Trawsbleidiol yw gwaith Llywodraeth Cymru dan arweiniad Jeremy Miles AS, syniadau ar gyfer y dyfodol dan arweiniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a chyfres y Sefydliad Materion Cymreig, sef Re-Thinking Wales. Trafododd y grŵp pa arferion neu bolisïau y byddem yn gwerthfawrogi eu cadw y tu hwnt i'r Coronafeirws.

**Cydgysylltu –** Canmolwyd arweinyddiaeth rhai awdurdodau lleol yn ystod yr ymateb i'r argyfwng, er enghraifft, wrth gysylltu grwpiau cymunedol mewn rhanbarthau gwahanol, ac ymateb i bwysau lleol, gan gamu i'r adwy i gynnig cymorth ymarferol a chydgysylltu ar unwaith. Roedd hyn yn allweddol i fanciau bwyd yn benodol. Roedd profiad yr awdurdodau lleol a oedd wedi ymateb i'r llifogydd diweddar yn golygu eu bod yn gallu gweithredu'n gyflym, yn bendant ac yn hyblyg.

**Ymateb cymunedol a lleol** – Cydnabuwyd bod pwysigrwydd grwpiau cymunedol yn gryfder enfawr, yn ogystal â'r cymorth a gafwyd gan y llywodraeth. Mae dealltwriaeth leol o anghenion meddygol a diwylliannol gwahanol yn hynod bwysig, a dylid cydnabod hynny wrth lunio polisïau tymor hwy. Croesawyd y grantiau i sefydliadau bach, sy'n cael eu gweinyddu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a nodwyd pwysigrwydd cefnogi sefydliadau llawr gwlad.

**Dim hawl i gyllid cyhoeddus** – Awgrymwyd y dylai'r sector rannu tystiolaeth â Llywodraeth Cymru, er mwyn dadlau'r achos i'r Swyddfa Gartref y dylid adolygu'r sefyllfa ynghylch y rhai sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus ar frys.

**Cymunedau BAME a chymunedau mudol** – Nododd y grŵp danbrisio'r economïau gofalu a gig, a bod lleiafrifoedd ethnig yn tueddu i gael eu gorgynrychioli yn y sectorau hyn, a bod y Coronafeirws yn gyfle i 'ailosod' y drefn a sicrhau bod yr holl weithwyr hyn yn cael o leiaf y cyflog byw gwirioneddol. Pe bai dirwasgiad, nodwyd y dylid brwydro yn erbyn gwneud bychod dihangol lle y gallai swyddi fod yn brin. Nododd y grŵp fod y 'Privilege Café' newydd yn cynnal sesiynau ar-lein ac anogwyd aelodau i ymuno â sesiwn.

**CCD a nawdd cymdeithasol** – Dylid parhau â'r gwaith ar ddatblygu system budd-daliadau Cymru, a dylai dangos cryfder Cymru ar y pwerau nawdd cymdeithasol sydd ganddi eisoes dynnu sylw at yr effaith y gall dull gweithredu datganoledig ei chael ar y bobl y mae arnynt ei angen fwyaf.

**Y camau nesaf**

Cytunwyd y byddai Oxfam Cymru yn drafftio papur ar ran y grŵp ar 'ailgodi'n gryfach' i'w ddosbarthu ar gyfer sylwadau/mewnbwn, gyda'r bwriad o'i wneud yn rhan o waith Jeremy Miles AS, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a syniadau'r Sefydliad Materion Cymreig.

DRAFT

DRAFFT